

## Gair Bywyd – Ionawr 2021

**Os gwnewch chi aros ynof fi, a minnau ynoch chi, bydd digonedd o ffrwyth yn eich bywydau" (Cf. Ioan 15:5-9).**

*Mae Iesu'n ein gwahodd i fod yn benderfynol wrth sefyll gydag ef wrth i ni gynnig ein bywydau'n rhodd i'r Tad. Mae'n awgrymu ein bod yn ei ddynwared drwy fodloni anghenion pob person sy'n rhannu rhan fach neu fawr o'n diwrnod. Mae'n gofyn i ni wneud hyn yn hael ac yn ddiuedd, er mwyn dwyn 'digonedd o ffrwyth'.*

Bob blwyddyn, mae Cristnogion sy'n perthyn i wahanol Eglwysi yn fyd-eang yn dilyn wythnos o weddi pan fyddan nhw'n gofyn i'r Tad am rodd undod, yn ôl dymuniad Iesu.

Mae'n dymuno hyn 'er mwyn i'r byd gredu' (Ioan 17:21): mae undod yn newid y byd - mae'n creu cymundeb, brawdoliaeth a chydsafiad. Yn ei hanfod mae'n rhodd gan Dduw, ac am y rheswm hwn mae'n hanfodol gofyn i'r Tad amdano yn ddygn a gydag ymddiriedaeth.

Profodd grŵp sy'n byw gair bywyd yn Sbaen fod hyn yn wir. Ers rhai blynyddoedd bellach, yn ystod Wythnos Gweddi dros Undod Cristnogol, teimlon nhw orfodaeth i weddio am undod ac adeiladu pontydd gyda phobl eraill. Ysgrifennodd Margarita, 'Cysyllton ni â'r swyddogion eciwmenaidd yn yr esgobaeth ac arweinwyr Eglwysig lleol a rhannu ein syniadau. Yna fe gasglon ni ynghyd fel Cristnogion i weddio a defnyddio ein gwahanol adeiladau eglwysig. Er enghraifft, un diwrnod fe ddefnyddion ni'r eglwys Gatholig ac ar ddiwrnod arall yr eglwys Uniongred. Bob tro, roedd ein heglwysi'n llawn o'r llawenydd a ddaw drwy bresenoldeb Duw. Ef yw'r un sy'n agor y ffordd at undod.'

Ar gyfer 2021, mae'r gymuned grefyddol yn Grandchamp, Ffrainc,<sup>ii</sup> sydd wedi ymrwymo i waith cymodi ymhlith Cristnogion, wedi cynnig adnod addas iawn o efengyl Ioan, fel goleuni ar gyfer y daith hon:

**Os gwnewch chi aros ynof fi, a minnau ynoch chi, bydd digonedd o ffrwyth yn eich bywydau.**

Mae'n wahoddiad heriol sy'n gofyn i ni fyw a gweithio er undod Cristnogion yn ystod y cyfnod arbennig hwn a pharhau drwy gydol y flwyddyn, ac yn wir, drwy gydol ein bywydau. Mae ein rhaniadau fel clwyf difrifol sydd angen ei wella, yn gyntaf gyda thrugaredd Duw ac yna drwy ein hymrwymiad i adnabod a pharchu ein gilydd a thystio gyda'n gilydd i'r efengyl.

Mae geiriau Iesu'n dangos i ni beth y dylem ni ei wneud: yn gyntaf, dylem 'aros' yn ei gariad.

Felly, dylem ni gryfhau ein perthynas bersonol gydag ef drwy ymddiried ein bywydau iddo a chredu yn ei drugaredd. Mae Iesu yn wir yn aros yn ffyddlon gyda ni bob amser.

Ar yr un pryd, mae'n ein gwahodd i fod yn benderfynol wrth sefyll gydag ef wrth i ni gynnig ein bywydau'n rhodd i'r Tad. Mae'n awgrymu ein bod yn ei ddynwared drwy fodloni anghenion pob person sy'n rhannu rhan fach neu fawr o'n diwrnod. Mae'n gofyn i ni wneud

hyn yn hael ac yn ddiuedd, er mwyn dwyn 'digonedd o ffrwyth'.

**Os gwnewch chi aros ynof fi, a minnau ynoch chi, bydd digonedd o ffrwyth yn eich bywydau.**

Mae'r anerchiad gan sylfaenydd Focolare, Chiara Lubich, yng Ngenefa ym mis Hydref 2002 yn y digwyddiad i nodi 500 mlwyddiant y Diwygiad<sup>iii</sup> yn berthnasol dros ben *'Mae angen cymaint o gariad yn y byd! Dywedodd Iesu y byddai'r byd yn ein hadnabod ni fel pobl sy'n perthyn iddo a thrwyddom ni, byddai'n ei adnabod ef, drwy gyd-gariad a thrwy undod: "Dyma sut y bydd pawb yn gwybod eich bod chi'n ddilynwyr i mi, am eich bod chi'n caru'ch gilydd" (Ioan 13:35). Rydym ni wedi deall hyn: mae'r presennol yn mynnu cariad gan bob un ohonom. Mae'n mynnu undod, cymundeb a chydysafiad. Mae hefyd yn galw ar Eglwys i ailgyfansoddi'r undod sydd wedi'i chwalu ers canrifoedd. Dyma'r diwygiad y mae'r nefoedd yn gofyn gennym ni; dyma'r cam cyntaf hanfodol fydd yn arwain at frawdoliaeth fyd-eang gyda phawb. Yn wir, bydd y byd yn credu os ydym ni'n unedig. Dywedodd Iesu hyn: "Dw i am iddyn nhw hefyd fod wedi'u huno â ni er mwyn i'r byd gredu" (cf. Ioan 17:21). Mae Duw yn dymuno hyn! Boed iddo roi i ni'r gras o leiaf i baratoi ar ei gyfer hyd yn oed os na fyddwn yn gweld ei wireddu."*<sup>iv</sup>

Letizia Magri

---

<sup>i</sup> Yn hemisffer y gogledd cynhelir hyn rhwng 18-25 Ionawr: yn hemisffer y de dewisir dyddiad arall yn agos i ŵyl y Pentecost.

<sup>ii</sup> Er gwybodaeth: [www.grandchamps.org](http://www.grandchamps.org)

<sup>iii</sup> Dethlir Diwrnod y Diwygiad (Reformationstag) bob blwyddyn ar 31 Hydref i goffáu proclamaswn Martin Luther o 95 thesis.

<sup>iv</sup> C. Lubich in "L'Unita", Citta Nuova, 2015, t.87